



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



**COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER**



**Heddlu • Police
DYFED-POWYS**
Diogelu ein Cymuned - Safeguarding our Community

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS A PHRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

ARCHWILIAD O GYFRIFON 2020/21

HYSBYSIR DRWY HYN O DAN Adrannau 29, 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

1. O 15 Mehefin 2021 tan 10 Gorffennaf 2021 yn gynwysedig, rhwng 10.00y.b. a 4.00y.h. o ddydd Llun i ddydd Gwener, gall unrhyw un sydd â diddordeb, ar ôl gwneud cais i'r Pennaeth Staff, ddarllen a gwneud copiâu o gyfrifon y sefydliadau a enwyd uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ynghyd â phob llyfr, gweithred, cytundeb, bil, taleb a derbynneb ym Mhencadlys yr Heddlu.
2. Am 9.00y.b. ar 13 Gorffennaf 2021, neu ar ôl hynny, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, Mr Adrian Crompton, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi, yn rhoi cyfle i'w holi am y cyfrifon, a gall unrhyw etholwr felly neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd gyfarfod â'r Archwilydd yn y Pencadlys Heddlu a enwyd a chyflwyno gwrthwynebiad i unrhyw ran o'r cyfrifon.
3. Nid yw'n bosibl gwrthwynebu ar ran yr etholwr os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol, cyn hynny, wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad arfaethedig, ac ar ba sail y gwneir hynny. Dylid anfon copi o'r hysbysiad i'r rhai sydd wedi arwyddo isod yn y cyfeiriad a roddwyd.

Dyddiedig y diwrnod 1 af hwn o Mehefin 2021

Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

Claire Parmenter, Prif Gwnstabl

**Pencadlys yr Heddlu,
Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF**